

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIUYD AR-LEIN AM 7.30y.h. DDYDD
LLUN, IONAWR 4ydd, 2021.

1. CROESO - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Fe groesawodd yn arbennig y Cynghorydd John Evans, cynghorydd newydd Betws yn Rhos a Llanelian. Roedd o'n gobeithio y byddai'r Cynghorydd Evans yn mwynhau ei amser ar y Cyngor, ac yn edrych ymlaen at gael gweithio gydag ef. Cytunodd pawb efo hynny. Diolchodd y Cynghorydd Evans i'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr am eu croeso.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; John Evans; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - Yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans; John D.Roberts a Goronwy R.Williams.
4. DATGANIAD O DDIDDORDEB
Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly nad yw'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolaethau a pholisïau cynllunio. Fe ddatgelodd y Cynghorydd Irwedd Griffiths ddiddordeb yn eitem 1.21/7(iv), cyhoeddiad o fwriad i blannu coed ar ei dir. Gan nad oedd unrhyw ddiddordeb niweidiol nac ariannol ar y pryd, fe arhosodd o yn y cyfarfod.
5. MUNUDAU
PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar-lein ar Dachwedd 2ail, 2020, a Thachwedd 9fed, 2020.
6. CYLLID - PENDERFYNWYD NODI adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod o Hydref 21ain, 2020, hyd at Dachwedd 20fed, 2020.
Cyfrif cymunedol£6263.44
Cyfrif busnes£5550.76
A HEFYD ar gyfer y cyfnod o Dachwedd 21ain, 2020, hyd at Ragfyr 20fed, 2020.
Cyfrif cymunedol£8904.40
Cyfrif busnes£5550.90
I GYMERADWYO'R FANTOLEN AR GYFER YR UN CYFNOD. FE
GYMERADWYWYD y fantolen gan bawb.
7. GOHEBIAETH
1.21/7(i) Cerdyn Nadolig gan Darren Millar AC. - NODWYD hwnnw gyda diolch.

1.21/7(ii) Llythyr gan Gylch Meithrin Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD anfon y cais hwn ymlaen i bwyllgor cymeradwyo'r Parc Heulol.

1.21/7(iii) Cyhoeddiad ymlaen llaw o gais yn ymwneud â datblygiad arfaethedig ar dir gyfochr â Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn. NODWYD hwn bryd hynny.

1.21/7(iv) Cais ymlaen llaw ar gyfer plannu coed yn Nant y Cochel, Dolwen. NODWYD hwn. Doedd gan y Cyngor ddim sylwadau adeiladol i'w gwneud ar hyn o bryd. Roedd yn aros am y cais cynllunio. (Gweler Datganiad o Ddiddordeb).

1.21/7(v) Gwahoddiad i gyfarfod swyddogion o'r Cyngor Sir i drafod grantiau ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus a lleoedd chwarae. NODWYD hyn. Roedd yr aelodau'n aros am y gwahoddiad i drafod trosglwyddo asedau.

1.21/7(vi) Atgoffâd gan ICO bod eu ffi o £40 yn ddyledus ddiwedd mis Ionawr. NODWYD y mater hwn. Y Clerc i ofalu amdano.

8. TALIADAU A DDERBYNIWYD - NODWYD y taliadau canlynol a dderbyniwyd:-

1.21/8(i) Y Praesept£ 3000.00

1.21/8(ii) Llog y Banc£ 0.14

9. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD CYMERADWYO'r anfonebau a'r taliadau canlynol:-

1.21/9(i) HMRC.....£ 71.81- AS

1.21/9(ii) Cyflog y Clerc£ 287.23- AS

1.21/9(iii) Cyfieithu (Hanner y gost)£ 22.50 - Siec 200094

1.21/9(iv) Offer PPE£ 15.33 - Siec 200095

10. ER GWYBODAETH - NODWYD pob eitem gwybodaeth isod.

1.21/10(i) Gorchymyn rheolaeth traffig Llanelian yn Rhos 17.3.21 hyd at 18.3.21

1.21/10(ii) Atebion ceisiadau cais 0/47907 erbyn 15.12.20 wedi eu hanfon i'r aelodau 24.11.20 ar gyfer codi sied unllawr gyda tho llechi ar oleddf yn y Coach House, Ffordd Cil Llidiart, Betws yn Rhos, gan Mr Martin Farr.

1.21/10(iii) Atebion i gais cynllunio 0/47915 erbyn 16.12.20 wedi eu hanfon i'r aelodau ar 25.11.20 ar gyfer estyniad a newidiadau i eiddo presennol yn Nhan-y-Bryn, Ffordd Tan-y-Bryn Bach, Dolwen. Mr David Learmont.

1.21/10(iv) Atebion i gais cynllunio 0/47913 erbyn 16.12.20 wedi eu hanfon i'r aelodau ar 25.11.20 ar gyfer estyniad i fyngalo a thai allan yn Nhŷn-y-Coed, Ffordd Cilgwyn Mawr, Llanelian yn Rhos. Mr Peter Ryan.

1.21/10(v) Atebion i gais cynllunio 0/47940 erbyn 22.12.20 wedi eu hanfon i'r aelodau ar 1.12.20 ar gyfer codi garej gyda storfa / gymnasiwm / swyddfa gartref ar y llawr cyntaf ym Mhen y Geulan, Plas yn Betws, Betws yn Rhos, Mr. a Mrs Wyn Williams.

11. GRANTIAU

Dim.

12. CYNLLUNIO

Fe anfonwyd pob cais a dderbyniwyd yn ystod cyfnod y Nadolig i'r aelodau.

CAIS NEWYDD

1.21/12(i) 0/48012 - ateb i'w anfon erbyn 12.1.21 ar gyfer estyniad i eiddo presennol i wella'r lle preswyl, ac estyniad i libart y cartref yn Alltwen, Ffordd Dolwen, Llysfaen. Mr a Mrs John a Jennifer Davies. Doedd DIM GWRTHWYNEBIAD.

13. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL -

1.21/13(i) E-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â ffurf archwiliadau ar gyfer blynyddoedd 2020/2021; 2021/2022 a 2022/2023. NODWYD y rhain i gyd.

14. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

1.21/14(i) Cyhoeddiad gan Gyngor Sir Conwy'n amlinellu uchafswm y gwariant taliadau grant Adran 137. Y swm ar gyfer 2021/2022 yw £8.41,

ac felly'r cyfanswm yw

Betws yn Rhos - 555 etholwyr

Llanelian yn Rhos - 266 etholwyr

yn gwneud cyfanswm o $821 \times £8.41 = £6904.61$ fel yr uchafswm gwariant i'w wario ar grantiau Adran 137 ar gyfer Betws a Llanelian. NODWYD HYN gan yr aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd fod gwelliant wedi bod ar rai ffyrdd yn yr ardal, ond bod rhai eraill mewn cyflwr gwael, a'i fod o wedi cael trafodaethau ynglŷn â nhw gyda swyddogion y Cyngor Sir.

15. MATERION YN YMWENUD Â'R WARD

1.21/15(i) Roedd y tarmac a osodwyd ym Mhenrefail yn codi'n barod.

1.21/15(ii) Adroddiadau am dyllau ffordd ger Felin Dolwen.

1.21/15(iii) Roedd angen glanhau'r gwter rhwng Garnedd a Choed Coch Lodge.

1.21/15(iv) Dywedodd aelodau fod rhai tai haf yn yr ardal yn cael eu defnyddio.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 8.20y.h.

CADEIRYDD..... DYDDIAD